

SCOLAR@10 - Ten years of university, national, and international activity, 2005 - 2015

SCOLAR Background

'Special Collections and Archives' (SCOLAR) was established after the merger of the University of Wales College of Medicine (UWCM) with Cardiff University (CU) in 2005. At that time the two institutions' Libraries had scattered across their two campuses at least seven rare books collections, five archival collections, and four research collections on microfilm (plus various other 'special collections') - few of which were readily accessible, few preserved properly, fewer catalogued, and even fewer were being utilized to support research and teaching.

SCOLAR was established to support the University Library Service to work with academic researchers and student learning programmes at a higher level than had been the case in the past. Over the years this has been achieved via direct work with academics and their external scholarly research partners, with enhanced student module support across all three University Colleges, with activities to help improve 'impact' for scholarly work, with external grant funding successes to enhance the wider University Library 'research environment', with major publicity and marketing of SCOLAR's work promoting the 'research profile' of Cardiff University, and via positive involvement in the University's community engagement work locally and across Wales.



Research Environment: - Page 2

Enhanced University Library Infrastructure: - Page 3

Promoting the University Research Profile: - Page 4

Enhanced Learning: - Page 5

Grant Funding: - Page 6

The Future: - Page 7

Research Environment: First in Wales, Best in the UK, and World Class – SCOLAR highlights:

“Excellent facility, very helpful and supportive staff,”
(external researcher)

In Wales SCOLAR has been the first to utilize the ground breaking British Library software, ‘Turning The Pages’, (TTP) in order to digitally promote treasures from its rare books collections in full colour 3D mode (mainly externally funded, to the tune of £50,000). TTP has travelled to the National Eisteddfod, the Hay Literature Festival, Gregynog Conferences, and has showcased the research resources available in Cardiff University to external audiences across Wales. In Wales SCOLAR also led the way in utilizing digital scanning microfilm readers, and in digitising Welsh Ballads with the National Library of Wales (with £66,000 of JISC funding), and we have one of the best websites for listing historical collections in Wales.

In UK terms SCOLAR has led the way, with Prof. Peter Harper in Cardiff, in furthering online archives cataloguing, through temporarily hosting the UK centre for scientists’ archives, NCUACS, (with grants of £200,000 from the Wellcome Trust). Also, with the National Library of Wales, SCOLAR participated in the JISC £500,000 project to digitise all World War One archives in the NLW and the Welsh Universities libraries consortium (WHELF), one of the largest centenary digitisation projects for the 1914-2014 commemorations.



While working on our Library rare books and archival collections over the last ten years it has become obvious that Cardiff University holds some world class research collections in SCOLAR; these include the only library in existence of 20th century historical human and medical genetics books, formed by Prof. Peter Harper; the massive CHEHC archives of evidence based healthcare starting with the ground-breaking papers of Prof Archie Cochrane in Cardiff; the University Library's founding collection, the Salisbury Library of Welsh and Celtic studies, now encompasses resources rarely found outside national libraries for these topics; we hold the personal and family archive of the poet and essayist killed at the front in World War One in 1917, Edward Thomas; and in our Cardiff Rare Books Collection we have two major historical collections almost unparalleled in their comprehensiveness, the arts and crafts Private

Press Collection, and the Restoration Drama Collection of players editions (the last two as part of the joint University/HEFCW and National Assembly funded purchase from Cardiff Public Library).

As well as these historical riches, SCOLAR has cooperated with academic and DEVAR colleagues to develop further collections to support modern research and teaching, and amongst the highlights of these have been the recent Collingwood Collection deposit via Prof. David Boucher in Cardiff, CHEHC archives donated by Sir Iain Chalmers (Oxford) and colleagues, Daily Mirror journalist archives, via Prof. Bob Franklin (JOMEC), Sir Julian Hodge's personal archives, Welsh teachers union archives from UCAC, and the latest addition is Ron King's personal collection of Circle Press artists books, via Prof. Bernard Moxham in Cardiff.

Enhanced University Library Infrastructure, Access, and Preservation:

Our academic, student, and external users cannot discover our resources to help them with their work unless they are catalogued online, but in 2005 we had no SCOLAR website, no Blog, and no online archives catalogue, and only a few of our rare books collections were catalogued online (and we had digitised only one small Welsh collection).

Since then we have initiated an online archives catalogue, ArchiveSearch - <http://archivesearch.cf.ac.uk/>, to match our LibrarySearch catalogue, <http://librarysearch.cf.ac.uk/> and have added over 15,000 records to ArchiveSearch, and have added nearly 7,000 rare books records to LibrarySearch.

Additionally we have added around 7,000 additional pages of digitised documents to our new digital repository, DigitalSearch <http://digitalsearch.cf.ac.uk/home.html>, since 2005, including sources on the history of medicine, 19th and 20th century architecture, pharmacy history, and Welsh ballads.

Also SCOLAR has descriptions now on its website of over 200 research resources, one of the most comprehensive special collections web resources



In addition to promoting all of our research collections, we also need to preserve them long-term. We have improved our archival storage to match the UK standard BS5454, we are due to submit our application for national recognition 'Archives Accreditation' in 2016, and we have undertaken around £40,000 of externally funded conservation work on our collections over the last ten years. In addition, the Wolfson Foundation awarded us over £30,000 to expand our secure rare books shelving.

In the wake of such SCOLAR activity over this period it has been gratifying to note that two of SCOLAR's staff have received university 'outstanding recognition awards' for their Library and Archive work contributions, one of our cataloguers received a prestigious award for a USA rare books workshop travel bursary, and one member of staff received the CILIP 'Welsh Librarian of the Year Award'.

"Brilliant as always - SCOLAR is one of the true assets of the University, "
(SCOLAR visitor).

in the UK university library sector, funded with £15,000 from Cymal; the website also gives access to a lively Blog about our academic support work which gets over 20,000 pages views per year; also it holds digital snapshots of all SCOLAR exhibitions which highlight key collections used for university centenaries, academic conferences, etc.; see - <http://www.cardiff.ac.uk/insrv/libraries/scolar/>

These online resources are not only available to members of the University, but via online consortia information on our collections is now available and searchable via UK, European, and international portals, such as COPAC, the Archives Hub, the European APEx, and Wikipedia. We are now getting nearly 100,000 online page views annually of our resources via our website.



Promoting the University research profile:

“ Helpful, friendly staff - exactly who I needed to help me! I found everything that I needed, ”
(external researcher)


SCOLAR regularly stages events jointly with academic colleagues to promote ongoing university research activities, these include hosting VIP visits to the University, staging an annual ‘Rare Books Lecture Series, and organizing open day-schools on research projects (plus all the associated publicity which accompanies these activities). Assisting SCOLAR in all this work is the joint academic-library advisory body, the SCOLAR Strategy Group, which is chaired by Prof. Bill Bell (ENCAP); this took forward the longstanding work of the previous SCOLAR Forum which was chaired by Prof. Wyn James (WELSH).

Amongst the visitors to SCOLAR we have welcomed have been two Cardiff University Vice-Chancellors, the UK head of the AHRC funding council, a member of the House of Lords, two National Librarians, the Harvard University Librarian, several UK university Librarians, Librarians from Latvia and Poland, the Director of the HLF in Wales, and in a specially organized exhibition we hosted the National Assembly’s Heritage Minister, Cardiff’s

Lord Mayor and the Chief Executive of HEFCW. Not to mention a few ‘celebrity’ visitors such as Cerys Matthews, Ffion Hague, and Eddie Butler!

Amongst our guest lecturers we have hosted presentations by academics from the USA, UK, Ireland, Greece, and the Netherlands; all have been well attended by a range of university and wider Cardiff community members. Amongst our support towards student recruitment we have welcomed annual USA Fulbright groups, Doctoral Training Programme events, Academic School Open Days, and University Open Days.

Publicity for these and related activities has included coverage in the following media over the years: the Times Higher Education, Sunday Times Supplement, Western Mail, South Wales Echo, Radio Wales, BBC Wales, BBC 4, CILIP Magazine (UK), ARC Magazine (UK), Cymal Magazine (Wales), OCLC Special Collections Report (USA), Directory of Rare Books (UK), ARLIS Art Researchers Guide (Wales), Cardiff University Magazine, DEVAR Alumni Magazine, INSRV News, and a host of social media via our Blogsites.



Enhanced Learning and Engagement with Students:

“The whole experience will be one that the students will remember for years to come,”
(staff comment)

It has been fascinating to see the increasing interest shown by both undergraduate and new postgraduate students when they encounter the historical materials held in SCOLAR's collections. Often these are the first occasions when students have ever used original and unique historical sources in their academic work, an essential first step for many of our PhD students. Over the last ten years SCOLAR has held 309 events such as hands-on workshops, seminars, and lectures, with over 4,200 attendees, and numbers are still growing year on year! Workshop topics for students have covered medieval history, history of the English language, history of costume, Welsh history and politics, introduction to archival research, book illustration, history of medicine, printing history, and more! This work with original research resources by students has led to academics noting better marks in various



modules, it has engaged students in practical presentations of their work via exhibitions, and many students have later undertaken CUROP placements in SCOLAR assisting academic staff with research projects.

In total we have supported ten CUROP student projects in SCOLAR, where academic staff have jointly supervised student work which has supported their own academic research. Topics covered have ranged from children's literature (in both Welsh and English), Restoration Drama studies, 20th century journalism archives, illustrated newspaper sources for women's studies, Welsh societies in Cardiff, and more.

We have been supported by EU and other student volunteers in summer vacations in a number of projects, with contributors from the UK, Germany, France, Italy, and the USA; it has been encouraging to see several of these go on to use their experience in SCOLAR to obtain professional posts, one in the House of Lords Library, one in a Cardiff archivist's post, and another in the Paris library service.


Grant Funding Successes: (2005 – 2015)

**“Thanks so much. You've been an absolute godsend for my first foray into the world of archives, ”
(post-graduate researcher).**


While SCOLAR's core team of three fte staff has undertaken the bulk of its work, various specific projects have required additional staff resources, and SCOLAR has been successful over the years in attracting external funds to realize projects which otherwise would not have been possible. Amongst these have been - £37,000 to undertake conservation work on various collections, £146,000 to digitize a range of historical collections, and £243,000 to catalogue a range of rare books and archive collections. In total, these

grants have funded 10 years equivalent of full time staff work.

Nearly £10,000 of grant funding has been invested in producing publications derived from various projects, which have included a 'Handbook to Archives Research', a guidebook to 'History of Medicine Sources in South Wales', a Cardiff volume in the series 'ARLIS Guides to Art Research Resources', and 'merchandise' such as posters, postcard sets, etc., based upon SCOLAR collections.



SCOLAR's staff are – Peter Keelan,
Alison Harvey, Lisa Webley (p/t),



and Mark Barrett (p/t).

SCOLAR has benefited from other staff contributions over the years for short periods, including Ken Gibb, Tim Powell, Simon Coleman, Tanya Nowak, Anna Smith, Catherine Preston, Jemma Francis.

We have appreciated our volunteer contributions over the decade, which in total have amounted to over one year's full time work equivalent.

Our thanks to academic and library colleagues

over the decade for their support is too extensive to list, but includes (amongst those already named) the SCOLAR Forum, the SCOLAR Strategy Group, DEVAR and our generous donors, the Library Cataloguing Team, the Library Communications and Systems Teams, the ASSL Team and Subject Librarians, the late Prof. Jonathan Osmond, the University Librarian, WHELF and GW4 colleagues, plus all our academic colleagues and student researchers.

JISC



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Cyngor Cylloedd Addysg
Uwch Cymru
Higher Education Funding
Council for Wales

hefcw



wellcome trust

A The National Archives

R
RESEARCH
COUNCILS UK



The Future:

Trends show a rising curve in the number of users of SCOLAR over the years, both onsite and online. This is reflected in the ongoing donations of research materials being offered to SCOLAR by academics, friends of the university, and others.

Just looking over this last year, SCOLAR has hosted more seminars and lectures than before, with the new 'CRECS' English literature events drawing large numbers to its evening events hosted by SCOLAR, and we continued our successful Cardiff Rare Books Lecture Series with high profile speakers from Cardiff, Cambridge, and New York.

Over the year we have received 4,000 visits onsite by staff and students in SCOLAR , plus another 1,000 online enquiries. Recent onsite academic researchers have used our collections on Restoration drama, Romanticism studies, the Welsh novel, Women's historical sources, Ruskin's archives, and Journalists' correspondence, for writing articles, lecture preparation, PhD research, and much more!

Many thanks to SCOLAR's External Advisers



Baroness Kay Andrews, OBE, Member of the House of Lords, previously Parliamentary Under-Secretary, Chair of English Heritage, and consultant to the Welsh Government on culture and poverty.

Linda Tomos, Director of the National Library of Wales, previously Director of Cymal in the Welsh Government (Museums, Archives, & Libraries Division), Chair of LISC Wales, Chair of ALMA-UK, Director of Aberystwyth University Research Projects.




“Following the dramatic growth in the importance of SCOLAR to the University and to humanities research in particular, it is only fitting that these collections should be a distinctive feature of the Library Service in future decades. They will form the centre-piece of the new Library being planned for the Cathays campus, showing off the rich historical legacy assembled by Cardiff University and city over the centuries.”

Janet Peters, Director, University Library Service

A Rising Curve

SCOT


Visitors numbers / Nifer ymwelwyr





2005 - 2010
8,110

2010 - 2015
10,716

Enquiries / Ymholiadau





Events / Digwyddiadau




Web hits / Nifer ar y we

95,490 2010 - 2015
 ...
 2005 - 2010 324,215 ...

Event attendees / Cynulleidfaoedd digwyddiadau



Loans / Benthyciadau





**SCOLAR@10 - Deng mlynedd o weithgareddau yn y
Brifysgol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, 2005-2015.**

Cefndir SCOLAR

Cafodd 'Casgliadau Arbennig ac Archifau' (SCOLAR) ei sefydlu ar ôl uno Coleg Meddygaeth Prifysgol Cymru a Phrifysgol Caerdydd yn 2005. Ar yr adeg honno, roedd o leiaf saith casgliad o lyfrau prin, pum casgliad archifol a phedwar casgliad ymchwil ar ficroffilm (a 'chasgliadau arbennig' amrywiol eraill) ar wasgar yn llyfrgelloedd y naill sefydliad a'r llall ar draws dau gampws. Nid oedd yn hawdd cael gafael ar rai o'r rhain, doedd dim llawer yn cael eu gwarchod yn iawn, doedd dim llawer wedi cael eu catalogio ac roedd llai fyth yn cael eu defnyddio i gefnogi gwaith ymchwil a dysgu.

Cafodd SCOLAR ei sefydlu i gefnogi Gwasanaeth Llyfrgell y Brifysgol er mwyn gweithio gydag ymchwilwyr academiaidd a rhaglenni dysgu myfyrwyr ar lefel uwch nag yn y gorffennol. Dros y blynnyddoedd cafodd hyn ei gyflawni drwy waith uniongyrchol gydag academyddion a'u partneriaid ymchwil ysgolheigaidd allanol, gyda mwy o gymorth modiwl i fyfyrwyr ar draws tri Choleg y Brifysgol. Bu gweithgareddau i helpu gwella 'dylanwad' gwaith ysgolheigaidd, a bu llwyddiannau o ran cael gafael ar gyllid grant allanol i wella 'amgylchedd ymchwil' ehangach Llyfrgell y Brifysgol. Bu llawer o weithgareddau cyhoeddusrwydd a marchnata ar gyfer gwaith SCOLAR yn hyrwyddo 'profil ymchwil' Prifysgol Caerdydd, a drwy gymryd rhan flaengar yng ngwaith ymgysylltu cymunedol y Brifysgol yn lleol a ledled Cymru.



Amgylchedd Ymchwil: - Tudalen 2

Gwell Seilwaith Llyfrgell y Brifysgol: - Tudalen 3

Hyrwyddo Profil Ymchwil y Brifysgol: - Tudalen 4

Dysgu Gwell: - Tudalen 5

Arian Grant: - Tudalen 6


Y Dydoliol: - Tudalen 7

Amgylchedd Ymchwil: Y Cyntaf yng Nghymru, y Gorau yn y DU, ac i Safon Ryngwladol - uchafbwyntiau SCOLAR:

“Cyfleuster ardderchog, staff cymwynasgar a chefnogol dros ben,” (ymchwilydd allanol)

Yng Nghymru SCOLAR oedd y cyntaf i ddefnyddio meddalwedd arloesol y Llyfrgell Brydeinig ‘Turning The Pages’, (TTP) er mwyn hyrwyddo trysorau o’i gasgliadau o lyfrau prin yn ddigidol yn y modd 3D lliw llawn (cafodd hyn ei gyllido’n allanol yn bennaf, gyda grant £50,000). Mae TTP wedi teithio i’r Eisteddfod Genedlaethol, Gŵyl Lenyddiaeth y Gelli, Cynadleddau Gregynog, ac wedi arddangos yr adnoddau ymchwil sydd ar gael ym Mhrifysgol Caerdydd i gynulleidfaedd allanol ar draws y wlad. Yng Nghymru roedd SCOLAR hefyd ar flaen y gad o ran defnyddio darllenwyr microfilm sy’n sganio’n ddigidol, ac o ran digido Baledi Cymru gyda Llyfrgell Genedlaethol Cymru (gyda £66,000 o gyllid JISC), ac mae gennym un o’r gweffannau gorau ar gyfer rhestru casgliadau hanesyddol yng Nghymru.

Yn y DU mae SCOLAR wedi bod ar flaen y gad, gyda’r Athro Peter Harper yng Nghaerdydd, o ran datblygu catalogio archifau ar-lein, drwy gynnal canolfan y DU ar gyfer archifau gwyddonwyr dros dro, NCUACS, (gyda grantiau o £200,000 gan Ymddiriedolaeth Wellcome). Hefyd, gyda Llyfrgell Genedlaethol Cymru, cymerodd SCOLAR ran mewn prosiect JISC gwerth £500,000 i ddigido holl archifau Rhyfel Byd Cyntaf Llyfrgell Genedlaethol Cymru a chonsortiw mlyneddol yng Nghymru (WHELF), un o’r prosiectau digido canmlwyddiant mwyaf ar gyfer digwyddiadau coffáu 1914-2014.



Wrth weithio ar gasgliadau llyfrau prin a chasgliadau archifol ein Llyfrgell dros y deng mlynedd diwethaf, daeth hi'n amlwg bod Prifysgol Caerdydd yn cadw yn SCOLAR rhai casgliadau ymchwil sydd gyda'r gorau yn y byd. Mae'r rhain yn cynnwys yr unig llyfrgell sy'n bodoli o lyfrau hanesyddol geneteg dynol a meddygol o'r 20fed ganrif, a ffurfiwyd gan yr Athro Peter Harper; archifau enfawr CHEHC o ofal iechyd ar sail tystiolaeth, gan ddechrau gyda phapurau arloesol yr Athro Archie Cochrane yng Nghaerdydd; casgliad Llyfrgell gyntaf y Brifysgol, Llyfrgell Salisbury ar Astudiaethau Cymraeg a Cheltaidd, sydd bellach yn cynnwys adnoddau nad ydynt yn cael eu gweld yn aml y tu allan i lyfrgelloedd cenedlaethol ar gyfer y pynciau hyn; rydym yn cadw archif personol a theuluol y bardd a'r ysgrifwr a laddwyd ar reng flaen y Rhyfel Byd Cyntaf yn 1917, Edward Thomas; ac yn ein casgliad Llyfrau Prin Caerdydd mae gennym ddu gasgliad hanesyddol mawr sydd heb eu tebyg yn y byd bron o ran pa mor gynhwysfawr ydynt, Casgliad Gweisg Preifat y mudiad celf a chref, a Chasgliad argraffiadau



actorian Dramâu'r Adferiad (mae'r ddu olaf yn rhan o brynant oddi wrth Lyfrgell Gyhoeddus Caerdydd, a gyllidwyd ar y cyd gan y Brifysgol/CCAUC a'r Cynulliad Cenedlaethol).

Yn ogystal â'r perlau hanesyddol hyn, mae SCOLAR wedi cydweithio â staff academaidd a'r adran DEVAR i ddatblygu rhagor o gasgliadau i gefnogi ymchwil a dysgu modern, ac mae uchafbwyntiau'r rhain wedi cynnwys y Casgliad Collingwood diweddar drwy'r Athro David Boucher yng Nghaerdydd, archifau CHEHC a roddwyd gan Syr Ian Chalmers (Rhydychen) a'i gydweithwyr, archifau newyddiadurwyr y Daily Mirror, drwy'r Athro Bob Franklin (JOMEC), archifau personol Syr Julian Hodge a'r ychwanegiad diweddaraf yw casgliad personol Ron King o lyfrau artistiaid Circle Press, drwy'r Athro Bernard Moxham yng Nghaerdydd.

Seilwaith, Mynediad a Gwarchod Gwell yn Llyfrgell y Brifysgol:

Ni all ein hacademyddion, ein myfyrwyr na'n defnyddwyr allanol ddod o hyd i'n hadnoddau i'w helpu gyda'u gwaith oni bai eu bod wedi cael eu catalogio ar-lein, ond yn 2005 nid oedd gennym wefan SCOLAR, dim Blog, a dim catalog archifau ar-lein, a dim ond llond llaw o'n casgliadau llyfrau prin oedd wedi cael eu catalogio ar-lein (a dim ond un casgliad digidol Cymraeg oedd ar gael).

Ers hynny rydym wedi creu catalog archifau ar-lein, ArchiveSearch - <http://archivesearch.caerdydd.ac.uk/>, i gyfateb i'n catalog LibrarySearch, <http://librarysearch.caerdydd.ac.uk/> ac rydym wedi ychwanegu dros 15,000 o gofnodion at ArchiveSearch, ac wedi ychwanegu bron i 7,000 o gofnodion llyfrau prin at LibrarySearch.

Ar ben hynny, rydym wedi ychwanegu tua 7,000 o dudalennau ychwanegol o ddogfennau wedi'u digido at ein storfa ddigidol newydd, DigitalSearch er 2005, <http://digitalsearch.caerdydd.ac.uk/home.html>, gan gynnwys ffynonellau ar hanes meddygaeth, pensaernïaeth yr 19eg a'r 20fed ganrif, hanes fferylliaeth, a baledi Cymraeg.

Mae gan SCOLAR hefyd ddisgrifiadau ar ei wefan bellach o dros 200 o adnoddau ymchwil, un o'r adnoddau gwe casgliadau arbennig mwyaf



“Gwych fel bob amser - mae SCOLAR yn un o wir asedau'r Brifysgol, ”
(ymwelydd â SCOLAR)

cynhwysfawr yn sector llyfrgelloedd prifysgol y DU, a gyllidwyd gyda grant £15,000 gan Cymal; mae'r wefan hefyd yn rhoi mynediad at Flog bywiog am ein gwaith academaidd sy'n cael dros 20,000 o ymweliadau bob blwyddyn; mae hefyd yn cadw cipluniau digidol o holl arddangosfeydd SCOLAR sy'n tynnu sylw at gasgliadau pwysig a ddefnyddiwyd i ddathlu canmlwyddiannau'r Brifysgol, cynadleddau academaidd ac ati: gweler - <http://www.caerdydd.ac.uk/insrv/libraries/scolar/>

Mae'r adnoddau ar-lein hyn ar gael i aelodau'r Brifysgol, ond ar ben hynny, drwy gonsortia ar-lein mae gwybodaeth nawr ar gael am ein casgliadau ac mae modd eu chwilio yn y DU, yn Ewrop ac yn rhyngwladol, drwy byrth fel COPAC, yr Archives Hub, yr APEx Europeaidd, a Wikipedia. Rydym bellach yn cael tua 100,000 o ymweliadau â'n tudalennau adnoddau ar-lein bob blwyddyn drwy ein gwefan.



Yn ogystal â hyrwyddo ein casgliadau ymchwil i gyd, mae angen inni hefyd eu gwarchod yn y tymor hir. Rydym wedi gwella ein storfeydd archifau i gyfateb i safon y DU sef BS5454. Rydym ar fin cyflwyno ein cais i gael cydnabyddiaeth genedlaethol 'Achrediad Gwasanaethau Archifau' yn 2016, ac rydym wedi gwneud gwerth tua £40,000 o waith cadwraeth sydd wedi cael ei gyllido'n allanol ar ein casgliadau dros y deng mlynedd diwethaf. Ar ben hynny, rhoddodd Sefydliad Wolfson dros £30,000 i ni er mwyn ehangu ein silffoedd diogel ar gyfer llyfrau prin.

Yn dilyn gweithgarwch o'r fath gan SCOLAR dros y cyfnod hwn roedd hi'n braff gweld bod dau aelod o staff SCOLAR wedi cael 'gwobrau cydnabyddiaeth neilltuol' y Brifysgol am eu cyfraniadau at waith Llyfrgelloedd ac Archifau. Cafodd un o'r catalogwyr wobr fawreddog ar gyfer bwrsariaeth teithio gweithdy llyfrau prin yn UDA, ac roedd un aelod o staff wedi cael 'Gwobr Llyfrgellydd y Flwyddyn Cymru' CILIP.

Hyrwyddo proffil ymchwil y Brifysgol:

“Staff cymwynasgar a chyfeillgar - yr union bobl roeddwn eu hangen i fy helpu! Fe wnes i ddod o hyd i bopeth roeddwn ei angen, ” (ymchwilydd allanol).

Cynhelir digwyddiadau rheolaidd yn SCOLAR, ar y cyd â chydweithwyr academaidd er mwyn hyrwyddo gweithgareddau ymchwil y Brifysgol, mae'r rhain yn cynnwys cynnal ymwelliadau VIP â'r Brifysgol, trefnu Cyfres o Ddarlithoedd ar Lyfrau Prin bob blwyddyn, a threfnu gweithdai diwrnod agored ar brosiectau ymchwil (a'r holl gyhoeddusrwydd cysylltiedig a ddaw gyda'r gweithgareddau hyn). Yn helpu SCOLAR gyda'r holl waith hwn mae Grŵp Strategaeth SCOLAR, corff ymgynghorol academaidd-llyfrgell ar y cyd, sy'n cael ei gadeirio gan yr Athro Bill Bell (ENCAP). Roedd hyn yn parhau â gwraith y cyn Fforwm SCOLAR a fu ar waith ers tro byd dan gadeiryddiaeth yr Athro Wyn James (CYMRAEG).


Ymysg yr ymwelwyr â SCOLAR rydym wedi croesawu dau Is-ganghellor Prifysgol Caerdydd, Pennaeth DU cyngor cylldo'r AHRC, aelod o Dŷ'r Arglwyddi, dau Llyfrgellydd Cenedlaethol, Llyfrgellydd Prifysgol Harvard, Llyfrgellwyr nifer o Brifysgolion yn y DU, Llyfrgellwyr o Latfia a Gwlad Pwyl, Cyfarwyddwr Cronfa Treftadaeth y Loteri yng Nghymru, ac mewn arddangosfa arbennig croesawyd Gweinidog Treftadaeth y Cynulliad Cenedlaethol, Arglwydd Faer Caerdydd a Phrif Weithredwr CCAUC. Heb sôn am enwau



adnabyddus fel Cerys Matthews, Ffion Hague ac Eddie Butler!

Ymhlið ein darlithwyr gwadd, rydym wedi cynnal cyflwyniadau gan academyddion o America, y DU, Iwerddon, Gwlad Groeg, a'r Iseldiroedd. Roedd cynulleidfa oedd da ar eu cyfer i gyd o'r Brifysgol ac o'r cyhoedd yng Nghaerdydd. Fel rhan o'n cefnogaeth i recriwtio myfyrwyr rydym wedi croesawu grwpiau Fulbright UDA yn flynyddol, digwyddiadau Rhaglen Hyfforddiant Doethuriaeth, Diwrnodau Agored Ysgolion Academaidd a Diwrnodau Agored y Brifysgol.

Roedd y cyhoeddusrwydd ar gyfer y gweithgareddau hyn a gweithgareddau cysylltiedig wedi cynnwys sylw yn y cyfryngau canlynol dros y blynnyddoedd: Times Higher Education, Sunday Times Supplement, Western Mail, South Wales Echo, Radio Wales, BBC Wales, BBC 4, CILIP Magazine (DU), ARC Magazine (DU), Cylchgrawn Cymal (Cymru), OCLC Special Collections Report (UDA), Directory of Rare Books (DU), ARLIS Art Researchers Guide (Cymru), Cylchgrawn Prifysgol Caerdydd, Cylchgrawn Cyn-fyfyrwyr DEVAR, Newyddion INSRV a llu o gyfryngau cymdeithasol drwy'r Blog ar ein gwefan.



Dysgu ac Ymgysylltu Gwell â Myfyrwyr:

“Bydd yr holl brofiad yn un y bydd y myfyrwyr yn ei gofio am flynyddoedd i ddod, „ (sylw gan aelod o staff).

Mae hi wedi bod yn drawiadol gweld y cynnydd yn lefel y diddordeb sydd wedi cael ei ddangos gan fyfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig newydd wrth iddyn nhw ddod ar draws deunyddiau hanesyddol sy'n cael eu cadw yng nghasgliadau SCOLAR. Yn aml dyma'r tro cyntaf erioed i'r myfyrwyr ddefnyddio ffynonellau hanesyddol gwreiddiol ac unigryw yn eu gwaith academaidd, cam cyntaf hollbwysig ar gyfer nifer o'n myfyrwyr PhD. Dros y deng mlynedd diwethaf mae SCOLAR wedi cynnal 309 o ddigwyddiadau fel gweithdai ymarferol, seminarau a darlithoedd, gyda mwy na 4,200 o bobl yn y digwyddiadau hyn, ac mae'r nifer yn dal i dyfu o un flwyddyn i'r llall! Mae pynciau'r gweithdai ar gyfer y myfyrwyr wedi cynnwys hanes canoloesol, hanes yr iaith Saesneg, hanes gwisgoedd, gwleidyddiaeth a chymdeithas yng Nghymru, cyflwyniad i ymchwil archifol, darlunio llyfrau, hanes meddygaeth, hanes argraffu a mwy! Mae'r gwaith hwn gydag adnoddau ymchwil gwreiddiol gan fyfyrwyr wedi arwain ar farciau



gwell mewn rhai modiwlau yn ôl staff academaidd, mae wedi rhoi cyfile i fyfyrwyr cyflwyno eu gwaith yn ymarferol mewn arddangosfeydd, ac mae nifer o fyfyrwyr wedi cael lleoliadau CUROP yn SCOLAR yn helpu staff academaidd gyda phrosiectau ymchwil.

At ei gilydd, rydym wedi cefnogi deg o brosiectau CUROP, lle mae staff academaidd a SCOLAR wedi goruchwyllo gwaith myfyrwyr ar y cyd, ac sydd wedi cefnogi eu hymchwil academaidd eu hunain. Mae'r pynciau dan sylw wedi amrywio o lenyddiaeth i blant (yn Gymraeg ac yn Saesneg), astudiaethau Dramâu'r Adferiad, archifau newyddiaduraeth o'r 20fed ganrif, ffynonellau gweledol papurau newydd ar gyfer astudiaethau menywod, cymdeithasau Cymraeg yng Nghaerdydd, a mwy.

Rydym wedi cael ein cefnogi gan fyfyrwyr yn gwirfoddoli o'r UE a mannau eraill dros wyliau'r haf ar nifer o brosiectau, gyda chyfraniadau o'r DU, yr Almaen, Ffrainc, yr Eidal ac America. Roedd hi'n galonogol gweld nifer o'r rhain yn mynd ymlaen i ddefnyddio eu profiad yn SCOLAR i ennill swyddi proffesiynol, un yn Llyfrgell Tŷ'r Arglwyddi, un mewn swydd archifydd yng Nghaerdydd ac un arall yng ngwasanaeth Llyfrgell Paris.


Llwyddiannau Grantiau Ariannol: (2005 – 2015)

**“Diolch yn fawr iawn. Rydych chi wedi bod yn fendith ar gyfer fy nghynnig cyntaf i fyd archifau, ”
(ymchwilydd ôl-raddedig).**

Er bod tîm craidd SCOLAR o dri aelod o staff wedi gwneud y rhan fwyaf o'i waith, mae prosiectau penodol gwahanol wedi galw am adnoddau staff ychwanegol, a dros y blynnyddoedd mae SCOLAR wedi llwyddo denu cyllid allanol i wireddu prosiectau na fyddai wedi bod yn bosibl fel arall. Mae'r rhain wedi cynnwys - £37,000 i wneud gwaith cadwraeth ar gasgliadau gwahanol, £146,000 i ddigido amrywiaeth o gasgliadau hanesyddol, a £243,000 i catalogio amrywiaeth o lyfrau prin a chasgliadau archifol. At ei gilydd

mae'r grantiau hyn wedi cyllido gwaith gwerth 10 mlynedd o staff llawn amser.

Mae bron i £10,000 o gyllid grant wedi cael ei fuddsoddi i gynhyrchu cyhoeddiadau sydd wedi deillio o brosiectau gwahanol, yn cynnwys 'Llawlyfr i Ymchwil Archifol', canllaw i 'Hanes Meddygaeth yn Ne Cymru', cyfrol ar Gaerdydd yn y gyfres 'ARLIS Guides to Art Research Resources', a 'nwyddau' fel posteri, setiau o gardiau post ac ati, yn seiliiedig ar gasgliadau SCOLAR.



Staff SCOLAR yw – Peter Keelan,
Alison Harvey, Lisa Webley (rh/a)



a Mark Barrett (rh/a)

Dros y blynnyddoedd mae SCOLAR wedi elwa ar gyfraniadau gan aelodau eraill o staff dros gyfnodau byr hefyd, gan gynnwys Ken Gibb, Tim Powell, Simon Coleman, Tanya Nowak, Anna Smith, Catherine Preston, Jemma Francis.

Rydym yn gwerthfawrogi cyfraniadau ein gwirfoddolwyr dros y degawd, sydd at ei gilydd wedi bod yn gyfystyr â blwyddyn o waith amser llawn.

Mae ein diolchiadau i gydweithwyr academaidd a

staff y llyfrgell am eu cefnogaeth dros y degawd yn ormod i'w rhestru, ond maen nhw'n cynnwys (ymysg y rheini sydd wedi cael eu henwi'n barod) Llyfrgellydd y Brifysgol, Fforwm SCOLAR, Grŵp Strategaeth SCOLAR, DEVAR a'n rhoddwyr hael, Tîm Catalogio'r Llyfrgell, Timau Cyfathrebu a Systemau'r Llyfrgell, y Tîm ASSL a Llyfrgellwyr Pwnc, y diweddar Athro Jonathan Osmond, , cydweithwyr WHELP a GW4, a'n holl gydweithwyr academaidd a'n myfyrwyr ymchwil.



Cyngor Cylldio Addysg
Uwch Cymru
Higher Education Funding
Council for Wales

hefcw

wellcome trust

The National Archives

R
RESEARCH
COUNCILS UK

COLWINSTON
CHARITABLE
TRUST

Y Dyfodol:

Mae patrymau'n dangos cynnydd yn y niferoedd sydd wedi bod yn defnyddio SCOLAR dros y blynnyddoedd, yn y llyfrgell ac ar-lein. Caiff hyn ei adlewyrchu gan y rhoddion cyson a gawn o ddeunyddiau ymchwil a gynigir i SCOLAR gan academyddion, cyfeillion y Brifysgol, ac eraill.

Wrth edrych yn ôl dros y flwyddyn ddiwethaf, mae SCOLAR wedi cynnal mwy o seminarau a darlithoedd nag erioed o'r blaen, gyda'r digwyddiadau llenyddiaeth Saesneg 'CRECS' newydd yn denu llawer iawn i'w digwyddiadau min nos yn SCOLAR. Rydym hefyd wedi parhau â'n Cifres o Ddarlithoedd Llyfrau Prin Caerdydd llwyddiannus gyda siaradwyr uchel eu proffil o Gaerdydd, Caergrawnt ac Efrog Newydd.

Dros y flwyddyn roedd 4,000 o bobl wedi ymweld â SCOLAR, yn cynnwys staff, myfyrwyr, a'r cyhoedd, ac roedd 1,000 o ymholaied ar-lein. Mae ymchwilwr academiaidd diweddar yn SCOLAR wedi defnyddio ein casgliadau ar Ddramâu'r Adferiad, astudiaethau Rhamantiaeth, y nofel Gymraeg, ffynonellau hanesyddol menywod, archifau Ruskin, a gohebiaeth Newyddiadurwyr – a hyn ar gyfer ysgrifennu erthyglau, paratoi darlithoedd, gwneud gwaith ymchwil PhD, a llawer mwy!

Diolch o galon i Ymgynghorwyr Allanol SCOLAR



Y Farwnes Kay Andrews, OBE, Aelod o Dy'r Arglwyddi, cyn Is-ysgrifennydd Seneddol, Cadeirydd Treftadaeth Lloegr, ac ymgynghorydd i Lywodraeth Cymru ar ddiwylliant a thlodi.

Linda Tomos, Cyfarwyddwr Llyfrgell Genedlaethol Cymru, cyn Cyfarwyddwr Cymal yn Llywodraeth Cymru (Adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd), Cadeirydd LISC Cymru, Cadeirydd ALMA-UK, Cyfarwyddwr Prosiectau Ymchwil Brifysgol Aberystwyth.



“Yn sgil y cynnydd ym mhwysigrwydd SCOLAR i'r Brifysgol ac i ymchwil yn y dyniaethau'n enwedig, mae'n briodol y dylai'r casgliadau hyn fod yn elfen ganolog o wasanaeth y Llyfrgell yn y dyfodol. Byddant yn ganolbwyt yng nghynlluniau ar gyfer datblygu Llyfrgell newydd ar gyfer campws Cathays, yn dangos y cyfoeth hanesyddol sydd wedi ei ddatblygu ym Mhrifysgol Caerdydd a'r ddinas dros y canrifoedd.”

Janet Peters, Cyfarwyddwr, Gwasanaeth Llyfrgell y Brifysgol

